# PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU
# DYDD LLUN 5$^{ED}$ O HYDREF 2015

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd D.W.H. Richards (Cadeirydd)**

**Y Cynghorwyr: D.M. Cundy, J.S. Edmunds, W.J.W. Evans, A.W. Jones, A. Lenny, D. Price, D.E. Williams, W.T. Evans (yn lle A. Davies), H.I. Jones (yn lle A.G. Morgan), M.J.A. Lewis (yn lle G. Davies) a K. Madge (yn lle J. Williams)**

**Hefyd yn bresennol:**
**Y Cynghorydd D. Jenkins – Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau**
**Y Cynghorydd P. E. Palmer – yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau**
**Y Cynghorydd L.M. Stephens – Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau Dynol, Effeithlonrwydd a Chydweithio**

**Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu:**
C. Moore, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol
G. Ayres, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth
J. Owen, Rheolwr Rhaglen TIC
K. Pett, Swyddog Polisi, Ymgynghori ac Ymgysylltu
S. Walters, Rheolwr Dros Dro Datblygu Economaidd
B. Dolan, Uwch-ymgynghorydd

**Hefyd yn bresennol:**
J. Evans, Rheolwr Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru (WAO)

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 10:00yb – 11:40yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr T. Bowen, G. Davies, A.G. Morgan a J. Williams.

## 2. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod(ion) | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd A.W. Jones | Eitem 7 | Ei fod yn Geidwad Tir a brydlesir i'r Awdurdod ar gyfer lleoedd parcio a'i fod yn derbyn incwm gan ei fod yn un o Ymddiriedolwyr Cymdeithas Les Glowyr Rhydaman |
| Y Cynghorydd K. Madge | Eitem 8 | Bod ei ferch yn gweithio i'r gwasanaethau cymdeithasol |

3. **DATGAN CHWIPIAID PLAID SYDD WEDI EU GWAHARDD.**

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

4. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

Nid oes cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

5. **EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL.**

Rhoddwyd rhestr i'r Pwyllgor o'r eitemau a fyddai'n cael eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf i'w gynnal ddydd Mercher, 25$^{ain}$ Tachwedd 2015.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r eitemau ar gyfer agenda'r cyfarfod nesaf.**

6. **ASESIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU O RAGLEN TRAWSNEWID, ARLOESI A NEWID CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Jeremy Evans, Rheolwr Archwilio Perfformiad (Swyddfa Archwilio Cymru) i'r cyfarfod. Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad ynghylch adolygiad o raglen TIC y Cyngor a oedd wedi'i gynnal yn ystod 2014/15 ac wedi'i gyhoeddi ym mis Mai 2015. Roedd yr adroddiad yn rhoi asesiad cadarnhaol o raglen TIC o ran ei threfniadau llywodraethu, ei hamcanion a'i chyfraniad ond roedd yn cynnwys 3 chynnig gwella. Dywedodd Rheolwr Rhaglen TIC fod y cynigion wedi'u gweithredu eisoes, gydag achosion busnes cryfach o ran risg a rhag-weld canlyniadau.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y term "*dis-benefit*" a ddefnyddid yn yr adroddiad. Dywedodd y Rheolwr Archwilio Perfformiad (Swyddfa Archwilio Cymru) ei fod yn disgrifio effeithiau negyddol posibl nas rhagwelid o ran newidiadau y bwriedid iddynt ddod â budd mewn man arall.

Gofynnwyd beth a wnaed i sicrhau y câi ffyrdd newydd o weithio eu cynnal a'u rhoi ar waith mewn modd cyson. Dywedodd Rheolwr Rhaglen TIC fod sicrhau bod newidiadau'n gynaliadwy ac yn cael eu cyflwyno ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol yn nodwedd allweddol. Hefyd roedd gan TIC ddull o edrych eto ar brosiectau ymhen blwyddyn i wirio bod timau'n glynu wrth yr egwyddorion gweithredu newydd a'r prosesau a bod y rhain yn dal yn gweithio er budd y cyhoedd. Yn ogystal, cyflwynid adroddiadau parhaus i'r Bwrdd Prosiectau ynghylch y prosiectau.

Gwnaed sylwadau y dylai rheolwyr, yn hytrach na thîm TIC, fod yn gyfrifol am yrru'r arloesi yn ei flaen. Hefyd byddai wedi bod yn braf cael astudiaethau achos yn yr adroddiad. Ymatebodd y Rheolwr Archwilio Perfformiad (Swyddfa Archwilio Cymru) fod gweithgarwch TIC yn gwneud newid diwylliannol yn rhan annatod o'r sefydliad a hynny mewn modd cynaliadwy, gyda'r rheolwyr yn ymrwymo i gysyniadau TIC ac yn meddwl mewn ffordd wahanol. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys gwella perfformiad o ran yr amserau'n ymwneud â thai gwag. Roedd

hefyd yn ymwybodol o'r adroddiad TIC blynyddol i'r Pwyllgor hwn.

Dywedodd Rheolwr Rhaglen TIC y'i gwnaed yn glir bob amser mai'r gwasanaethau, ac nid y tîm TIC, oedd yn perchenogi unrhyw brosiect. Roedd y tîm TIC yno i roi'r modd i reolwyr a staff gamu'r tu allan i'w hamgylchedd gwaith er mwyn iddynt allu clustnodi'r angen am newid. Y rheolwyr oedd yn arwain o ran rhoi'r newid ar waith, a hynny gyda chymorth y tîm TIC, a oedd yn camu'n ôl yn unig pan oedd wedi'i fodloni bod y newid yn gynaliadwy. Roedd cwrs gwella parhaus wedi'i ddatblygu hefyd gan Academi ac roedd yn cael ei dreialu gan 15 rheolwr er mwyn creu'r modd i newid. Y gobaith oedd cyflwyno hyn yn raddol i reolwyr eraill ar draws y sefydliad maes o law.

Gofynnwyd faint yr oedd y fenter TIC wedi'i chostio o'i gymharu â'r £2,000,000 o arbedion y cyfeirid atynt yn yr adroddiad. Eglurodd Rheolwr Rhaglen TIC mai tîm wedi'i secondio ydoedd yn wreiddiol ond ei fod bellach yn dîm parhaol er mis Tachwedd diwethaf. Roedd £4.5 miliwn o arbedion wedi'u clustnodi bellach.

Gofynnwyd pam nad oedd yr achosion busnes wedi bod yn ddigon manwl i gychwyn. Dywedodd Rheolwr Rhaglen TIC mai'r rhain oedd yn sefydlu cynigion y prosiect ond ei bod yn anodd cael rheolwyr a staff i ymrwymo iddynt os clustnodwyd arbedion o'r cychwyn cyntaf. Fodd bynnag, roedd yn bosibl sicrhau arbedion drwy welliannau a mesurau effeithlonrwydd. Ychwanegodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod unrhyw arbedion a wnaed i'w gweld eto yn y gyllideb sylfaenol.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad.**

## 7. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2015/16

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Jeremy Evans, Rheolwr Archwilio Perfformiad (Swyddfa Archwilio Cymru) i'r cyfarfod. Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad ynghylch adolygiad o raglen TIC y Cyngor a oedd wedi'i gynnal yn ystod 2014/15 ac wedi'i gyhoeddi ym mis Mai 2015. Roedd yr adroddiad yn rhoi asesiad cadarnhaol o raglen TIC o ran ei threfniadau llywodraethu, ei hamcanion a'i chyfraniad ond roedd yn cynnwys 3 chynnig gwella. Dywedodd Rheolwr Rhaglen TIC fod y cynigion wedi'u gweithredu eisoes, gydag achosion busnes cryfach o ran risg a rhag-weld canlyniadau.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y term "*dis-benefit*" a ddefnyddid yn yr adroddiad. Dywedodd y Rheolwr Archwilio Perfformiad (Swyddfa Archwilio Cymru) ei fod yn disgrifio effeithiau negyddol posibl nas rhagwelid o ran newidiadau y bwriedid iddynt ddod â budd mewn man arall.

Gofynnwyd beth a wnaed i sicrhau y câi ffyrdd newydd o weithio eu cynnal a'u rhoi ar waith mewn modd cyson. Dywedodd Rheolwr Rhaglen TIC fod sicrhau bod newidiadau'n gynaliadwy ac yn cael eu cyflwyno ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol yn nodwedd allweddol. Hefyd roedd gan TIC ddull o edrych eto ar brosiectau ymhen blwyddyn i wirio bod timau'n glynu wrth yr egwyddorion gweithredu newydd a'r prosesau a bod y rhain yn dal yn gweithio er budd y cyhoedd. Yn ogystal, cyflwynid adroddiadau parhaus i'r Bwrdd Prosiectau ynghylch y prosiectau.

Gwnaed sylwadau y dylai rheolwyr, yn hytrach na thîm TIC, fod yn gyfrifol am yrru'r arloesi yn ei flaen. Hefyd byddai wedi bod yn braf cael astudiaethau achos yn yr adroddiad. Ymatebodd y Rheolwr Archwilio Perfformiad (Swyddfa Archwilio Cymru) fod gweithgarwch TIC yn gwneud newid diwylliannol yn rhan annatod o'r sefydliad a hynny mewn modd cynaliadwy, gyda'r rheolwyr yn ymrwymo i gysyniadau TIC ac yn meddwl mewn ffordd wahanol. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys gwella perfformiad o ran yr amserau'n ymwneud â thai gwag. Roedd hefyd yn ymwybodol o'r adroddiad TIC blynyddol i'r Pwyllgor hwn.

Dywedodd Rheolwr Rhaglen TIC y'i gwnaed yn glir bob amser mai'r gwasanaethau, ac nid y tîm TIC, oedd yn perchenogi unrhyw brosiect. Roedd y tîm TIC yno i roi'r modd i reolwyr a staff gamu'r tu allan i'w hamgylchedd gwaith er mwyn iddynt allu clustnodi'r angen am newid. Y rheolwyr oedd yn arwain o ran rhoi'r newid ar waith, a hynny gyda chymorth y tîm TIC, a oedd yn camu'n ôl yn unig pan oedd wedi'i fodloni bod y newid yn gynaliadwy. Roedd cwrs gwella parhaus wedi'i ddatblygu hefyd gan Academi ac roedd yn cael ei dreialu gan 15 rheolwr er mwyn creu'r modd i newid. Y gobaith oedd cyflwyno hyn yn raddol i reolwyr eraill ar draws y sefydliad maes o law.

Gofynnwyd faint yr oedd y fenter TIC wedi'i chostio o'i gymharu â'r £2,000,000 o arbedion y cyfeirid atynt yn yr adroddiad. Eglurodd Rheolwr Rhaglen TIC mai tîm wedi'i secondio ydoedd yn wreiddiol ond ei fod bellach yn dîm parhaol er mis Tachwedd diwethaf. Roedd £4.5 miliwn o arbedion wedi'u clustnodi bellach.

Gofynnwyd pam nad oedd yr achosion busnes wedi bod yn ddigon manwl i gychwyn. Dywedodd Rheolwr Rhaglen TIC mai'r rhain oedd yn sefydlu cynigion y prosiect ond ei bod yn anodd cael rheolwyr a staff i ymrwymo iddynt os clustnodwyd arbedion o'r cychwyn cyntaf. Fodd bynnag, roedd yn bosibl sicrhau arbedion drwy welliannau a mesurau effeithlonrwydd. Ychwanegodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod unrhyw arbedion a wnaed i'w gweld eto yn y gyllideb sylfaenol.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad.**

## 8. HENEIDDIO’N DDA YNG NGHYMRU – CYNLLUNIAU LLEOL HENEIDDIO’N DDA

*Bu i'r Cynghorydd K.Madge ddatgan buddiant sef bod ei ferch yn gweithio i'r gwasanaethau cymdeithasol.*

Croesawodd y Pwyllgor y fersiwn drafft o Gynllun Lleol *Heneiddio'n Dda*, Sir Gaerfyrddin sef cynllun a ddatblygwyd i fodloni dau sbardun strategol allweddol; rhaglen *Heneiddio'n Dda yng Nghymru* ac iddi bum thema, a'r *Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru.* Roedd y Cynllun yn gysylltiedig â'r Weledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Cynaliadwy i Bobl Hŷn, yr oedd yr adran Cymunedau wrthi'n ei datblygu. Roedd hefyd yn ategu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, drwy gyfrannu at gymunedau cynaliadwy a oedd yn galluogi pobl i heneiddio 'gan aros lle roeddent’.

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

Pwysleisiwyd pwysigrwydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg wrth ddarparu

gwasanaethau i bobl â dementia, o gofio bod llawer o ddioddefwyr yn colli eu hail iaith.

Gwnaed sylwadau'n ategu'r prif themâu oedd yn y Cynllun. Y farn oedd bod problemau wedi'u clustnodi ond gofynnwyd sut y gellid datrys y rhain. Gofynnwyd hefyd pa mor ymarferol ydoedd o ran ei gyflawni o gofio'r materion cyllido. Dywedodd y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth nad oedd adnoddau ychwanegol wedi'u clustnodi a'r nod oedd defnyddio'r adnoddau presennol yn well ac mewn ffyrdd gwahanol. Clustnodi'r angen a theilwra gwasanaethau i'w diwallu. Ychwanegodd y Swyddog Polisi, Ymgynghori ac Ymgysylltu y byddid yn datblygu'r Cynllun ymhellach. Roedd goblygiadau o ran adnoddau yn sgil cymdeithas yn heneiddio. Fodd bynnag, y bwriad oedd mai hwyluso a galluogi cymunedau er mwyn iddynt hwy allu cynorthwyo eu pobl hŷn fyddai rôl y Cyngor a'r Aelodau Etholedig.

Yn ogystal trafodwyd y ffaith fod llai o gyswllt cymdeithasol yn achos llawer o bobl hŷn yn arwain at unigrwydd, unigedd, iselder a dementia, a bod y cwtogi o ran darparu pryd ar glud a gwasanaethau'r dyn llaeth yn gwaethygu hyn. Nodwyd hefyd fod y diffiniad o gymuned a natur cymunedau yn prysur newid.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Cynllun drafft i'r Bwrdd Gweithredol.**

## 9. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIADAU CRAFFU.

Eglurwyd i'r Pwyllgor pam na chyflwynwyd adroddiadau, sef Adroddiad Blynyddol 2014/15 ynghylch Caffael, yr Adolygiad gan TIC o Wariant ar Wasanaethau Sector Preifat, a'r Diweddariad gan TIC ynghylch y Gwariant ar Wasanaethau Trydydd Sector, a’r adroddiad ynghylch y Gwariant ar Arbenigedd Allanol, gan gynnwys y gwasanaethau cyfreithiol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r rhesymau.**

## 10. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 24AIN GORFFENNAF 2015.

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a oedd wedi'i gynnal ar 24ain Gorffennaf 2015, er mwyn nodi eu bod yn gofnod cywir.**

________________________ ________________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**